Lord Elis-Thomas

Rwy wedi dewis Bwlch y Crimea, bwlch Gerddinen y griafolen rhwng Blaenau Ffestiniog a Dolwyddelan fel fy hoff dirlun. Rhesymau personol sydd y tu ôl i'r dewis yma; mae'r bwlch yn rhannu Meirionydd a Nant Conwy , etholaeth yr ydw i wedi ei chynrychioli er 1983 yn y Senedd a'r Cynulliad.

Bob tro yr ydw i'n teithio drwy'r blwch rwy'n synnu at y newid trawiadol sydd yn y tirwedd. I un cyfeiriad gwelir golygfeydd naturiol ucheldir Nant Conwy,a Moel Siabod yn enfawr yn y pellter; ac ar ddiwrnod clir gellir gweld yr Wyddfa, ar Glyderau fel cewri yn y pellter. Ar ochr arall y bwlch mae gogoniant tomennydd llechi Blaenau Ffestiniog - olion amlwg o hanes y gorffennol.

O dan y bwlch yna ganwyd fy nhad mewn tŷ bach o'r enw Mount Pleasant, ac er i mi gael fy magu yn Llanrwst rwy'n teimlo'n wreiddiedig iawn yno yng nghysgod yr hen ardal ddiwydiannol a golygfeydd y Moelwyn yn y pellter.

Rwy'n falch fod yna bellach fwy o ddiddordeb mewn cerdded mewn ardaloedd lle mae olion diwydiannol i'w gweld. Mae hen olion yn y Blaenau yn dyddio'n ôl i' r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Teimlaf yn ymwybodol iawn tra'n cerdded yma bod yna llawer mwy i dirwedd Cymru na golygfa - mae'r tirwedd, a daeareg y lle a'r gymdeithas sy'n seiliedig ar y ddaeareg i gyd yn rhan o'r un peth ac mae'n bwysig cofio hynny. Mae'r ffaith bod y mynyddoedd a'r llechi wedi eu creu yn y lle cyntaf wedi dylanwadu'n helaeth arnon ni fel cenedl. Mae rhai yn meddwl fod y pyramidiau mawr o lechi'n anharddu ein gwlad ond mae'n atgof pwysig on hanes ni.

I've chosen the Crimea Pass, or 'Bwlch Gerddinen y Griafolen' between Blaenau Ffestiniog and Dolwyddelan as my favourite landscape. I have my own personal reasons for this choice; the pass divides Meirionnydd and Nant Conwy, the constituency which I have represented since 1983 in both Parliament and the Assembly.

Every time I travel up the Pass, I am astounded by the way the landscape changes. In one direction the natural landscapes of the uplands of the Conwy valley can be seen, with Moel Siabod immense in the distance; and on a clear day you can see Snowdon, and the Glyders gigantic in the distance. On the other side of the Pass the fantastic slate heaps of Blaenau Ffestiniog can be seen – reminding us of our industrial past.

In the shadow of the Pass my father was born in a small house called Mount Pleasant, and although I was brought up in Llanrwst I feel very rooted there in the midst of the industrial remains with the Moelwyn rising in the distance.

I'm very pleased that there has been more interest recently in walking in areas with industrial remains. There are old industrial remains in the Blaenau dating back to the nineteenth century. I am very aware when I'm walking here that there is much more to the landscapes of Wales than fine views – the landscape, its geology and the society which grew out of that geology are all part of the same thing and it is important that we do not forget that link. The fact that the mountains and the slate rocks were created in the first place has had a dramatic influence on Wales and its people. Some think that the pyramids of slate are an eyesore, but they are an important reminder of our history.